Pumed Ddrafft **01/07/05**

Cynllun Iaith Gymraeg

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

a baratowyd yn unol â

Deddf yr Iaith Gymraeg 1993

I'w weithredu gan Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru â'r CICau yng Nghymru

Cynllun Iaith Gymraeg

Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Cymeradwywyd y cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 14(1) Deddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chynghorau Iechyd Cymuned wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddant yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gynnal eu busnes yng Nghymru. Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y byddant yn gweithredu'r egwyddor honno wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

Cymeradwywyd y Cynllun cyffredinol gan Fwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru ar ……

Cymeradwywyd y Cynllun hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg ar ……..

Pumed Ddrafft **01/07/05**

Cynnwys **Tudalen**

1. Cyflwyniad 5

2. Cynllunio a darparu gwasanaethau 6

2.1 Polisïau a mentrau newydd 6

2.2 Darparu gwasanaethau 6

2.3 Safonau gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg 7

3. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg 7

3.1 Gohebiaeth 7

3.2 Gohebu dros y ffôn 7

3.3 Cyfarfodydd cyhoeddus 8

3.4 Cyfarfodydd eraill 8

3.5 Cyfathrebu drwy ddulliau eraill 8

4. Delwedd gyhoeddus Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru 9

4.1 Hunaniaeth gorfforaethol 9

4.2 Arwyddion 9

4.3 Deunydd a argraffir 9

4.4 Hysbysiadau i'r wasg 10

4.5 Cyhoeddusrwydd, hysbysebu, marchnata a deunydd arddangos 10

5 Gweithredu a monitro'r cynllun 11

5.1 Staffio a Recriwtio 11

5.2 Dysgu Cymraeg 11

5.3 Hyfforddiant galwedigaethol 11

5.4 Trefniadau gweinyddol 12

5.5 Asiantaethau allanol 12

5.6 Ariannu 12

5.7	Monitro'r cynllun	12
5.8	Cwynion	13
5.9	Cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad	13
5.10	Cyhoeddi'r cynllun	13
5.11	Gweithio mewn partneriaeth	14
5.12	Adolygu dimensiwn yr iaith yn ystod gweithgaredd monitro'r Cyngor Iechyd Cymuned	
5.13	Amserlen/Cynllun Gweithredu	14

Atodiad 1	Rhestr Gyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned	15
Atodiad 2	Adolygiad o'r Iaith Gymraeg mewn Cynghorau Iechyd Cymuned	17

1. Cyflwyniad

1.1 Datganiad o fwriad Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chynghorau Iechyd Cymuned

Crëwyd Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn sicrhau y gall cleifion a'r cyhoedd leisio'u barn o ran sut y darperir gwasanaethau'r GIG. Mae Cyngor Iechyd Cymuned yn cynrychioli buddiannau'r cyhoedd yn y GIG drwy fonitro gweithgarwch y GIG, drwy helpu cleifion neu berthnasau sydd am gwyno am y GIG a thrwy wneud sylwadau ar gynigion y GIG i newid gwasanaethau, ar ôl ceisio barn y cyhoedd yn gyntaf lle y bo'n briodol.

Nod Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yw rhoi llais cenedlaethol i Gynghorau Iechyd Cymuned a sicrhau eu bod oll yn cyflawni eu dyletswyddau i safon dda gydag adnoddau digonol i'w galluogi i wneud hynny.

1.2 Mae prif swyddfa Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghaerdydd ond mae'r Cynghorau Iechyd Cymuned wedi'u lleoli ledled Cymru yn eu swyddfeydd eu hunain. Atodwyd rhestr lawn o gyfeiriadau a manylion cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

1.3 Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chynghorau Iechyd Cymuned yn gyrff cyhoeddus fel y diffiniwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

Maent yn sicrhau bod gan ddefnyddwyr, staff a gwirfoddolwyr yr hawl i gael gwasanaethau yn Gymraeg os dyna yw eu dewis iaith.

1.4 Mae'r cynllun hwn yn nodi'r gwasanaethau hynny a ddarperir yn Gymraeg eisoes, ac a fydd yn darparu sail ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol. Mae'n amlinellu'r datblygiadau hynny ac yn darparu amserlen i'w gweithredu. Amlinellir y trefniadau ar gyfer monitro elfennau unigol a'r cynllun fel cyfanwaith.

1.5. Cymeradwywyd y Cynllun gan Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ar …….

1.6 Cyfrifoldeb corfforaethol Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned a Chynghorau Iechyd Cymuned yw'r cynllun iaith hwn, a'r gwaith o'i weithredu.

2. Cynllunio a darparu gwasanaethau

Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru wedi adolygu'r defnydd a wna ei aelodau a'i staff o'r Gymraeg.
Mae'r arolwg hwn yn dangos yn glir y ceir ymagwedd galonogol tuag at yr iaith a bod cymorth sylweddol ar gyfer datblygu mesurau pendant. Bydd y mesurau hyn yn troi'r ymagwedd galonogol honno yn wasanaeth dwyieithog priodol i'n haelodau a defnyddwyr y gwasanaethau.

2.1 Polisïau a mentrau newydd

2.1.1. Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn sicrhau bod y polisïau a'r mentrau newydd yn gyson â'r cynllun hwn ac yn darparu ffordd o hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg drwy symud y Cyngor Iechyd Cymuned yn nes at gydraddoldeb gyda phob cyfle.

2.1.2 Wrth ffurfio polisïau newydd a chynllunio mentrau newydd, bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn asesu'r canlyniadau o ran y Gymraeg a'r Saesneg fel rhan ganolog o'r broses. Caiff unrhyw gyfleoedd i hyrwyddo nod y Cyngor Iechyd Cymuned fel y nodir yn 1.3 uchod eu nodi.

2.1.3 Bydd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar faterion a allai olygu newidiadau i'r cynllun hwn. Ni chaiff unrhyw newidiadau eu gweithredu heb i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gytuno arnynt.

2.2 Darparu gwasanaethau

2.2.1 Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn darparu amrywiaeth o wasanaethau i'w aelodau ac i ddefnyddwyr y gwasanaethau fel y nodwyd yn 1.1 uchod. Maent yn ymrwymedig i ddatblygu arfer da yng Nghymru fel bod gan aelodau a defnyddwyr ei wasanaethau ddewis o ran yr iaith y maent am ei defnyddio.

2.2.2 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymdrechu i sicrhau y caiff y dewis iaith ei chadarnhau a'i chofnodi (yn amodol ar ddarpariaethau'r Deddf Diogelu Data) ac y defnyddir y dewis iaith lle bynnag y bo'n bosibl. Felly, bydd gwybodaeth am ddewis iaith ar gael yn hawdd a bydd y broses o ystyried dewis iaith yn gam awtomatig/anorfod pryd bynnag y bydd angen cysylltu ag aelodau neu ddefnyddwyr y gwasanaeth.

2.2.3 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymdrechu i sicrhau na fydd dewis defnyddio'r Gymraeg yn golygu y bydd safon y gwasanaethau yn is nac yn arafach. Nodir hyn yn glir pan gynigir dewis iaith a chaiff ei fonitro (gweler 5.7 isod).

2.2.4 Os nad oes aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael ar unwaith, trefnir bod siaradwyr Cymraeg eraill ar gael mewn swyddfeydd eraill i gynnig cymorth. Cedwir rhestr o aelodau, staff a gwirfoddolwyr a all ddelio â materion drwy gyfrwng y Gymraeg. Cynigir hyfforddiant, cyngor a chanllawiau ar y trefniadau hyn i staff ac aelodau (gweler 5.2 a 5.3 isod).

2.2.5 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn adolygu'r trefniadau hyn o bryd i'w gilydd, yn enwedig o ystyried y tebygolrwydd o dwf yn y galw am ddarpariaeth drwy gyfwng y Gymraeg.

2.3 Safonau gwasanaethau yn Gymraeg ac yn Saesneg

Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaethau o ansawdd uchel yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd y Cyngor Iechyd Cymuned yn defnyddio'r un dangosyddion perfformiad ar gyfer ei weithgareddau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3. Delio â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

3.1 Gohebiaeth

3.1.1 Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn croesawu gohebiaeth ysgrifenedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.1.2 Bydd pob darn o ohebiaeth yn Gymraeg yn derbyn ymateb yn Gymraeg a bydd pob darn o ohebiaeth yn Saesneg yn derbyn ymateb yn Saesneg. Cedwir cronfa ddata o ddewis iaith.

3.1.3 Bydd yr amser ar gyfer ateb yn Gymraeg yr un peth ag ateb yn Saesneg.

3.1.4 Caiff pob darn o ohebiaeth, boed yn Gymraeg neu'n Saesneg, ei lofnodi.

3.1.5 Pan fyddwn yn ymwybodol o ddewis iaith, gohebir yn yr iaith honno.

3.1.6 Bydd llythyrau a thaflenni safonol a gyhoeddir i'r cyhoedd yng Nghymru o Swyddfa'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ddwyieithog.

3.1.7 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn gosod gwiriwr sillafu Cymraeg ar ei systemau prosesu geiriau.

3.2 Gohebu dros y ffôn

3.2.1 Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn croesawu galwadau ffôn yn Gymraeg ac yn Saesneg.

3.2.2 Bydd pob galwad allanol yn cael ei hateb gyda chyfarchiad dwyieithog. Bydd staff a gwirfoddolwyr sy'n ateb y ffôn ar ran y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn cael canllawiau ar sut i ddefnyddio'r cyfarchiad dwyieithog. Felly, bydd yn sicrhau bod staff a gwirfoddolwyr yn cael y cymorth priodol wrth i'r mesur hwn gael ei weithredu.

3.2.3 Bydd staff sy'n ateb galwadau yn trosglwyddo galwadau Cymraeg i aelod priodol o'r staff sy'n siarad Cymraeg os ydynt ar gael.

3.2.4 Os na fydd aelod o staff sy'n siarad Cymraeg ar gael, rhoddir dewis i'r galwr, naill ai i aros i siaradwr Cymraeg ffonio nôl o fewn un diwrnod gwaith, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad yn ysgrifenedig yn Gymraeg.

3.2.5 Bydd pob neges peiriant ateb yn ddwyieithog. Bydd y neges yn fyr.

3.3 Cyfarfodydd cyhoeddus

3.3.1 Bydd hysbysebion cyfarfodydd cyhoeddus yn ddwyieithog. Bydd yn cynnwys datganiad bod croeso i'r rhai sy'n mynychu siarad yn Gymraeg neu'n Saesneg, a gwahoddiad i hysbysu'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ymlaen llaw o'r iaith y dymunant ei siarad.

3.3.2 Bydd staff ac aelodau sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo bathodynnau pan fyddant yn mynychu cyfarfodydd.

3.4 Cyfarfodydd eraill

3.4.1 Pan fydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn trefnu cyfarfodydd gyda sefydliadau, sydd fel arfer yn gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, cynhelir y cyfarfod yn Gymraeg fel arfer, neu darperir offer cyfieithu ar y pryd.

3.4.2 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru d yn sicrhau bod staff cymwys sy'n siarad Cymraeg ar gael ar gyfer cyfarfodydd preifat gydag unigolion sydd am ddefnyddio'r Gymraeg.

3.5 Cyfathrebu drwy ddulliau eraill

3.5.1 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed yn ei weithgareddau.

3.5.2. Gall pobl sydd am gael cyfarfod 'wyneb yn wyneb' e.e yn eu cartref, wneud hyn yn eu dewis iaith.

3.5.3 Caiff gwefan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ei datblygu i gynnwys opsiynau Cymraeg er mwyn bod yn gyfartal â'r opsiynau Saesneg.

3.5.4 Mae Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn croesawu negeseuon e-bost yn Gymraeg ac yn Saesneg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar gael i gyfieithu negeseuon e-bost, fel yr ohebiaeth ysgrifenedig arall.

4. Delwedd gyhoeddus **Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru**

4.1 Hunaniaeth gorfforaethol

Mae gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog sy'n cynnwys enw'r sefydliad, cyfeiriad ac is-bennawd ar lythyrau corfforaethol, cyhoeddiadau, arwyddion, papur ffacs, cardiau busnes, cardiau adnabod a nwyddau a deunyddiau eraill.
Bydd staff ac aelodau yn derbyn canllawiau ysgrifenedig o ran hunaniaeth ddwyieithog y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

4.2 Arwyddion

4.2.1 Bydd holl arwyddion allanol a mewnol sydd ar eiddo'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ac yn llygad y cyhoedd yn ddwyieithog, Bydd y fersiwn Gymraeg uwchben neu o flaen y fersiwn Saesneg. Bydd maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd y testun ar arwyddion yn parchu egwyddor cydraddoldeb.

4.2.2 Os defnyddir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gyfartal o ran maint, ansawdd a fformat a byddant yn gyfartal o ran amlygrwydd.

4.2.3 Bydd pob arwydd newydd, neu arwydd sy'n disodli hen arwydd yng Nghymru yn gwbl ddwyieithog, a bydd y ddwy iaith yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd.

4.3 Deunydd a argraffir

4.3.1 Caiff taflenni a ffurflenni a ddefnyddir gan aelodau'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru neu'r cyhoedd yng Nghymru eu cynhyrchu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.3.2 Bydd fersiynau ar wahân, pan gânt eu cynhyrchu, o'r un safon yn y ddwy iaith a byddant ar gael ar yr un pryd ac yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Penderfynir pa gyhoeddiadau y dylid eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar adeg eu cynhyrchu. Bydd Cyfarwyddwr y Bwrdd a Phrif Swyddogion y Cyngor Iechyd Cymuned yn gyfrifol am benderfynu pa gyhoeddiadau y mae'n rhaid eu cyhoeddi yn ddwyieithog.

4.3.3 Bydd cost unrhyw ddogfen ddwyieithog yr un peth â fersiwn uniaith.

4.3.4 Bydd staff a dylunwyr y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn derbyn canllawiau ar baratoi deunyddiau yn ddwyieithog a/neu mewn fformat Cymraeg/Saesneg yn unig.

4.3.5 Bydd dogfennau cyhoeddus y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, fel adroddiadau, yn ddwyieithog.

4.4 Hysbysiadau i'r wasg

4.4.1 Bydd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn darparu gwybodaeth i'r cyfryngau yng Nghymru yn Gymraeg ac yn Saesneg.

4.4.2 Bydd datganiadau i'r wasg ar gael ar yr un pryd yn Gymraeg ac yn Saesneg. Fel arall, caiff deunydd Saesneg ei gyfieithu o fewn dau ddiwrnod.

4.4.3 Bydd cynadleddau i'r wasg yn ddwyieithog.

4.4.4 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn llunio rhestr o staff ac aelodau sy'n fodlon siarad yn Gymraeg ar y radio a'r teledu. Rhoddir canllawiau i'r rhai a nodir o ran defnyddio'r Gymraeg.

4.4.5 Bydd hysbysiadau yn y wasg yn ymddangos yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg ac yn Gymraeg yn unig mewn cyhoeddiadau Cymraeg.

4.5 Cyhoeddusrwydd, hysbysebu, marchnata a deunydd arddangos

4.5.1 Bydd deunydd a gynhyrchir yn ddwyieithog, fodd bynnag, efallai y bydd angen cynhyrchu deunydd Cymraeg a Saesneg ar wahân. Caiff y rhain eu cyhoeddi i'r un safon.

4.5.2 Gellir cynhyrchu deunydd ychwanegol yn Gymraeg yn unig at ddibenion penodol.

4.5.3 Bydd is-benawdau yn ddwyieithog hyd yn oed lle mae'r deunydd dilynol yn uniaith.

4.5.4 Cynhelir cyfweliadau ar gyfer arolygon yn Gymraeg neu yn Saesneg, yn ôl dewis yr un sy'n cael ei gyfweld.

4.5.5 O ran recriwtio, bydd yr hysbyseb yn ddwyieithog.

5. Gweithredu a monitro'r cynllun

5.1 Staffio a recriwtio

5.1.1 Mae angen staff ac aelodau dwyieithog ar y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru er mwyn cyflawni'r nod a nodwyd yn 1.3 uchod. Felly, mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn cydnabod bod y gallu i siarad Cymraeg yn sgil gwerthfawr a dilys.

5.1.2 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymdrechu i sicrhau bod ganddo ddigon o staff dwyieithog i ddarparu gwasanaeth priodol i'r cyhoedd ehangach yng Nghymru.

5.1.3 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn nodi'r swyddi hynny lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Gwneir hyn mewn ffordd wrthrychol. Meini prawf y dynodiad hwn fydd natur y swydd a'r lefel o gyswllt â'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd unrhyw ddynodiadau o'r fath yn cael eu cynnwys yn y swydd ddisgrifiadau a'r manylebau person.

5.1.4 Darperir hyfforddiant a chymorth i ddefnyddio'r iaith Gymraeg i staff sydd am ehangu eu defnydd o'r iaith o fewn fframwaith cynllun hyfforddi Bwrdd y Cyngor Iechyd Cymuned. Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn cymryd rhan mewn cynlluniau mentora iaith lle bo'n bosibl.

5.1.5 Byddwn yn monitro ac yn mynd i'r afael â bylchau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg.

(bydd yn ffurfio rhan o'r weithdrefn flynyddol o adrodd yn ôl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg)

5.2 Dysgu Cymraeg

5.2.1 Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymdrechion y staff i ddysgu Cymraeg. Rhoddir cymorth priodol i staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg pan fydd adnoddau yn caniatáu hynny, yn unol â chynllun hyfforddi Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned.

5.2.2 Pan fydd cymorth ar gael i ddysgu Cymraeg, rhoddir blaenoriaeth i staff sy'n delio'n rheolaidd ag aelodau sy'n siarad Cymraeg ac aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, neu y mae eu rôl yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn siarad Cymraeg da yn gyhoeddus ar ran y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

5.3. Hyfforddiant galwedigaethol

5.3.1. Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn cydnabod yr angen i hyfforddi rhai o'i staff a'i aelodau drwy gyfrwng y Gymraeg.

5.3.2 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn asesu anghenion hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg a bydd yn ymgymryd â'r hyfforddiant sydd ar gael eisoes neu'n comisiynau hyfforddiant o'r fath ei hun (mewn achosion eithriadol).

(defnyddir cyfleusterau lleol lle bo angen)

5.3.3 Bydd yr asesiad hwn a'r ddarpariaeth yn rhan o hyfforddiant prif ffrwd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned ar gyfer staff presennol a bydd yn rhan ganolog o broses sefydlu staff newydd.

5.3.4. Mae Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned hefyd yn cydnabod yr angen am hyfforddiant ymwybyddiaeth o iaith i staff ac aelodau nad ydynt yn siarad Cymraeg ac nad ydynt yn bwriadu ei dysgu. Felly bydd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn trefnu rhaglen barhaus o ymwybyddiaeth o iaith.

(yn y rhaglen sefydlu)

5.4 Trefniadau gweinyddol

5.4.1 Cymeradwywyd y Cynllun Iaith Gymraeg gan Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ar …….. a bydd yn cael ei weithredu gyda'i awdurdod llawn.

5.4.2 Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn sicrhau bod ei weinyddiaeth fewnol yn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cynllun. Caiff ei drefniadau cynllunio ac ariannol eu datblygu i adlewyrchu hyn. Nod y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yw normaleiddio cynllunio a gwario o ran yr iaith Gymraeg fel y gall ddarparu gwasanaeth priodol a naturiol yng Nghymru yn y ddwy iaith swyddogol.

5.4.3 Cyfarwyddwr y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru fydd yn gyfrifol am weithredu'r cynllun yn gyffredinol. Y Cyfarwyddwr fydd hefyd yn gyfrifol am adrodd yn ôl ar gynnydd wrth ei weithredu. I gael rhagor o wybodaeth a chyngor ar y Cynllun hwn, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr.

5.5 Asiantaethau allanol

Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn sicrhau bod unrhyw asiantaethau allanol a ddefnyddir ganddynt yn ymwybodol o'r cynllun hwn ac yn ddarostyngedig i'w ddarpariaethau fel rhan o unrhyw gontract. Bydd cydymffurfiaeth asiantaethau â'r cynllun yn rhan o unrhyw broses o werthuso'u gwaith.

5.6 Ariannu

Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn gwneud pob ymdrech i sicrhau digon o arian i weithredu'r Cynllun Iaith Gymraeg.

5.7 Monitro'r cynllun

Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn paratoi adroddiadau cynnydd mewnol o ran gweithredu'r Cynllun ac yn eu cyflwyno i gyfarfod Cyngor Iechyd Cymuned yn flynyddol. Bydd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn derbyn adroddiad cydymffurfio blynyddol a fydd yn cyflawni'r nodau canlynol:

- Mesur p'un a yw'r Bwrdd a'r Cynghorau Iechyd Cymuned yn cydymffurfio â'r Cynllun.

- Mesur a yw'r Cynllun yn cael ei reoli'n briodol.
- Dadansoddi ei berfformiad ar sail adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb.
- Asesu ac ystyried prif themâu o ran gweithredu'r cynllun.

- Nodi unrhyw wendidau sylfaenol, a chreu cynllun gweithredu a fydd yn cynnwys amserlen i fynd i'r afael â hwy.

Anfonir copi o'r adroddiad hwn at Fwrdd yr Iaith Gymraeg.

5.7.3 Yn nhrydedd flwyddyn gweithredu'r Cynllun, bydd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn paratoi adroddiad gwerthuso cynhwysfawr a fydd yn asesu ac yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun ers ei ddechrau. Bydd yr adroddiad hwn yn:

- darparu trosolwg a dadansoddiad thematig o gydymffurfiaeth a pherfformiad dros dair blynedd gyntaf y Cynllun, o ddau safbwynt – darparu gwasanaeth a rheoli'r cynllun;
- amlinellu blaenoriaethau ar gyfer y tair blynedd nesaf, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau yn y Cynllun.

Bryd hynny, bydd Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yn adolygu ac yn diwygio'r Cynllun Iaith Gymraeg.

5.8 Cwynion

5.8.1 Ymdrinnir â phob cwyn o ran gweithredu'r cynllun gan ddefnyddio gweithdrefn gwyno bresennol Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru.

5.8.2 Mae gan y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru ddiddordeb mewn achosion pryder nad ydynt yn dod o dan gategori cwynion swyddogol. Bydd yn rhoi ystyriaeth deg i achosion pryder o'r fath hyd yn oed os nad ydynt yn gwynion ffurfiol. Bydd yr ystyriaethau hyn yn llywio'i waith yn y dyfodol.

5.9 Cyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad

Cyhoeddir gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad a bydd ar gael i aelodau ac i'r cyhoedd. Gallai'r wybodaeth honno fod ar ffurf fersiwn gryno o'r adroddiadau llawn a gyhoeddwyd at ddibenion mewnol. Bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn esbonio'r rhesymau dros fethu â chyflawni targedau a'r camau sy'n cael eu rhoi ar waith i gywiro materion.

5.10 Cyhoeddi'r cynllun

5.10.1 Bydd aelodau presennol y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru, ei staff a'i aelodau sy'n rhan o'i weithgareddau yn cael eu hysbysu o'r cynllun hwn a bydd copïau ohono ar gael iddynt.

5.10.2 Bydd gwybodaeth a hyfforddiant o ran y cynllun yn rhan ganolog o'r broses sefydlu i aelodau newydd o staff.

5.11 Gweithio mewn partneriaeth

5.11.1 Mae'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff cyhoeddus eraill, ond fel arfer, y cyrff cyhoeddus eraill sy'n cymryd y brif rôl mewn partneriaethau o'r fath.

5.11.2 Os mai'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yw'r arweinydd strategol ac ariannol o fewn partneriaeth, bydd yn sicrhau bod y broses o ddarparu gwasanaeth i'r cyhoedd yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg.

5.11.3 Pan fydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymuno â phartneriaeth lle mai'r corff arall sy'n arwain, bydd cyfraniad y Cyngor Iechyd Cymuned yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith Gymraeg a bydd yn annog partïon eraill i gydymffurfio ag ef.

Pan fydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn ymuno â phartneriaeth neu'n creu partneriaeth, bydd yn gofyn i ddarpar bartneriaid am eu Cynlluniau Iaith Gymraeg hwy, eu Polisïau Iaith, neu'r ffyrdd y maent yn gweithredu'n ddwyieithog. O fewn unrhyw bartneriaeth, bydd y Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn cynnig cyngor a chymorth i sefydliadau partner eraill.

5.12 Adolygu dimensiwn yr iaith yn ystod gweithgaredd monitro'r Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru

Mae gan Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru gyfres o swyddogaethau craidd wedi'u cynllunio i'w galluogi i warchod buddiannau'r cyhoedd yn eu hardal hwy.

Yn y cyd-destun hwnnw, bydd Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru yn canfod sut mae cyrff y GIG yn darparu ar gyfer anghenion cleifion a'u gofalwyr sy'n siarad Cymraeg wrth gynnal eu hymweliadau monitro.

5.13 Amserlen/ Cynllun Gweithredu

Atodir amserlen a Chynllun Gweithredu ar gyfer pob Cyngor Iechyd Cymuned a'r Bwrdd.
O ystyried bod Cynghorau Iechyd Cymuned a Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru yn gweld bod galw amrywiol am ddefnyddio'r Cynllun Iaith Gymraeg ledled Cymru, bydd angen i'r amserlen ar gyfer gweithredu'r agweddau amrywiol ar y Cynllun fod yn amrywiol hefyd.

ATODIAD 2

Cynghorau Iechyd Cymuned Cymru – Manylion Cyswllt

Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru
Mr Peter Johns, Cyfarwyddwr
Llawr Gwaelod, Ty'r Parc
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd CF10 3AF
Ffôn: 0845 644 7814 Ffacs: 02920 235574
E-bost: peter.johns@waleschc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Brycheiniog a Maesyfed
Mr Bryn Williams, Prif Swyddog
2il Lawr, 2 The Struet
Aberhonddu LD3 7LH
Ffôn: 01874 624206 Ffacs: 01874 611602
E-bost: breconchc@breconchc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Pen-y-Bont ar Ogwr
Mr Kevin Dee, Prif Swyddog
Ystafell B
Britannic House
Llandarsi SA10 6JH
Ffôn: 01792 324201 Ffacs: 01792 324205
E-bost: bridgchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Caerdydd
Mr Martyn Jenkins, Prif Swyddog
Ty'r Parc
Heol y Brodyr Llwydion
Caerdydd CF10 3AF
Ffôn: 02920 377407 Ffacs: 02920 665470
E-bost: amandastokes@cardiffchc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Caerfyrddin
Prif Swyddog
103 Heol Awst
Caerfyrddin SA31 3AP
Ffôn: 01267 231384 Ffacs: 01267 230443
E-bost: carmarthen@chcwales.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Ceredigion
Dr Monica Williams, Prif Swyddog
8 Ffordd Portland
Aberystwyth SY23 2NL
Ffôn: 01970 624760 Ffacs: 01970 627730
E-bost: ceredigion@chcwales.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Clwyd
Mrs Gail Roberts, Prif Swyddog
Cartrefle, Cefn Road
Wrecsam LL13 9NH
Ffôn: 0845 2267292 Ffacs: 01978 346870
E- bost: admin@clwydchc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Dwyrain Conwy/Cyngor Iechyd Cymuned Gorllewin Conwy
Mrs Christine Jones, Prif Swyddog
4 Sgwâr y Drindod
Llandudno LL30 2PY
Ffôn: 01492 878840 Ffacs: 01492 860878
E-bost: admin@conwychc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Gwent
Mrs Catherine O'Sullivan, Prif Swyddog
Tŷ Mamhilad, Ystad Parc Mamhilad
Pontypŵl NP4 0XH
Ffôn: 01495 740555 Ffacs: 01495 757916
E-bost: gwentchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Gwynedd
Mr Glanville Owen, Prif Swyddog
4 Lôn Bupur
Caernarfon LL55 1RG
Ffôn: 01286 674961 Ffacs: 01286 672253
E-bost: gogchc@nwwaleschc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Llanelli
Mr Martin Morris, Prif Swyddog
103 Heol Awst
Caerfyrddin SA31 3AP
Ffôn: 01267 232312 Ffacs: 01267 230443
E-bost: llanelli@chcwales.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Meirionnydd
Mr Gareth Owen, Prif Swyddog
Beechwood House
Dolgellau LL40 1AU
Ffôn: 01341 422236 Ffacs: 01341 422897
E-bost: meirchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Merthyr a Chynon
Mr Keith Reynolds, Prif Swyddog
3ydd Llawr, Canolfan Iechyd Hollies, Swan Street
Merthyr Tudful CF47 8ET
Ffôn: 01685 382644 ***neu*** 01685 384023
Ffacs: 01685 382644
E-bost: jan.adams@merthyrchc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Castell-nedd a Phort Talbot
Mr Peter Owen, Prif Swyddog
Ystafell B, Britannic House
Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ
Ffôn: 01792 324201 Ffacs: 01792 324205
E-bost: neathchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Pontypridd/ Rhondda
Mr Clive Barnby, Prif Swyddog
Uned 10 Maritime Offices
Woodland Terrace, Maes-y-Coed
Pontypridd CF37 1DZ
Ffôn: 01443 405830 Ffacs: 01443 485988
E- bost: enquiries@pontypriddchc.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Bro Morgannwg
Mr Gordon Harrop, Prif Swyddog
2 Stanwell Road, Penarth
Bro Morgannwg CF64 3EA
Ffôn: 02920 350611 Ffacs: 02920 350609
E- bost: vgchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Trefaldwyn
Mr John Howard, Prif Swyddog
Ladywell House
Y Drenewydd SY16 1JB
Ffôn: 01686 627632 Ffacs: 01686 629091
E-bost: montchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Sir Benfro
Mr Ashley Warlow, Prif Swyddog
Ystafell 2, Cedar Court
Parc Busnes Havens Head
Aberdaugleddau
Sir Benfro SA73 3LS
Ffôn: 01646 697610 Ffacs: 01646 697256
E- bost: pembrokeshire@chcwales.org.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Abertawe
Mrs Sandra Owen, Prif Swyddog
Ystafell B, Britannic House
Llandarsi, Castell-nedd SA10 6JQ
Ffôn: 01792 324201 Ffacs: 01792 324205
E-bost: swanchc@chc.wales.nhs.uk

Cyngor Iechyd Cymuned Ynys Môn
Mrs Carol Williams, Prif Swyddog
8a Stryd Fawr, Llangefni
Ynys Môn LL77 7LT
Ffôn: 01248 723283 Ffacs: 01248 750337
E- bost: ymon@nwwaleschc.org.uk

ATODIAD 2

Adolygiad o'r Iaith Gymraeg mewn Cynghorau Iechyd Cymuned

Cynlluniwyd yr adolygiad hwn i ganfod y lefel o ddefnydd a chymorth ar gyfer yr Iaith Gymraeg ym mhob Cyngor Iechyd Cymuned. Bydd y wybodaeth a gesglir yn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu Cynllun Iaith Gymraeg Bwrdd y Cynghorau Iechyd Cymuned.

1. Sawl aelod o'ch staff sy'n
   a) Siarad Cymraeg?
   b) Ysgrifennu'n Gymraeg?

2. Sawl un o'ch aelodau sy'n
   a) Siarad Cymraeg?
   b) Ysgrifennu'n Gymraeg?

3. Ym mha iaith y mae eich Cyngor Iechyd Cymuned yn cynnal ei gyfarfodydd?

4. Ydych chi'n darparu cyfleusterau cyfieithu mewn cyfarfodydd?

5. Ydych chi'n cynhyrchu cofnodion/agendâu yn ddwyieithog?

6. Os felly, ydych chi'n eu cyfieithu'n fewnol neu ydych chi'n defnyddio cyfleusterau cyfieithu allanol?

7. Ydych chi'n cynhyrchu deunydd cyhoeddusrwydd a gwybodaeth yn ddwyieithog?

8. Ydych chi'n eu cyfieithu'n fewnol neu ydych chi'n defnyddio cyfleusterau cyfieithu allanol?

9. Ydych chi'n derbyn ymholiadau neu geisiadau am wasanaethau yn Gymraeg? (nodwch faint o ymholiadau neu geisiadau a gewch ar gyfartaledd)

10. Nodwch sut rydych yn delio â cheisiadau o'r fath

11. A allwch nodi tua faint o arian rydych yn ei wario i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg bob blwyddyn yn eich Cyngor Iechyd Cymuned?